

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

Gallaf lwyddo ond i mi roi cynnig arni!



PROSBECTWS
PROSPECTUS



GAIR O GROESO

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Croeso cynnes i Ysgol Gymraeg Y Login Fach. Gobeithio y bydd ein prosbectws yn ddefnyddiol ac y bydd yn eich annog i ddod i'n gweld yn yr ysgol.

Ein nod yw darparu ysgol 3-11 oed sy'n rhoi addysg cyfrwng Cymraeg o'r ansawdd uchaf mewn amgylchedd teg, cartrefol ac uchelgeisiol. Rydym yn credu mewn paratoi disgyblion trwy ddatblygu eu sgiliau a'u gwerthoedd wrth baratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn disgwyl wynebu heriau'r 21ain ganrif.

Rydym yn disgwyl y safonau uchaf posibl gan ein disgyblion ac rydym yn gwneud ein gorau glas i roi pob cyfle ac arweiniad iddynt. Mae pob disgybl yn cael ei ystyried yn unigolyn sy'n aelod pwysig o gymuned Ysgol Gymraeg Y Login Fach. Mae'r egwyddor sylfaenol hon o barchu pob unigolyn o fewn yr ysgol, a rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog i sail ethos, gwerthoedd a llwyddiant yr ysgol. Rydym yn hyderus bod ein disgyblion yn falch o'u hysgol, yn falch o'u Cymreictod a'u dwyieithrwydd, ac yn gallu cyfrannu at gymuned Waunarlwydd, Abertawe, Cymru a'r Byd.

Mae addysgu plant yn gyfrifoldeb mawr ac yn ffrainc enfawr. Os ydych chi'n rhiant i ddisgybl sydd eisoes yn yr ysgol, diolch am ymddiried ynddo. Mae gennym bolisi drws agored yma yn yr ysgol ac mae cydweithrediad rhieni a theuluoedd, a phartneriaith agos rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl bwysig er mwyn cynnal y cyfleoedd gorau i'n plant.

Rydym yn ysgol sy'n parchu hawliau plant a chydabyddwn fod gan bob un o dan 18 oed hawliau waeth beth [Erthygl 1 a 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)].

Os ydych chi'n ystyried anfon eich plentyn i Ysgol Gymraeg Y Login Fach neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â ni a byddwn yn falch iawn o'ch tywys o gwmpas i chi brofi'r cyfeillgarwch a bwrlwm y dysgu ac addysgu.

Mrs Katrin Parkhouse
Pennaeth



A WORD OF WELCOME

Dear Parent or Guardian

A warm welcome to Ysgol Gymraeg Y Login Fach. I hope you find our prospectus useful and that it encourages you to come and visit us at the school.

Our aim is to teach children between 3-11 years old by preparing Welsh medium education of the highest standard in a fair, homely and ambitious environment. We believe in preparing our pupils for life beyond the classroom by developing their skills ensuring that they can face the challenges of the 21st century.

We expect the highest standards from our pupils and make every effort as a school to give them every possible opportunity and encouragement. Every pupil is treated as an individual and a valued member of the Ysgol Gymraeg Y Login Fach community. This fundamental principle of respecting every individual within the school, and putting the individual's needs first is fundamental to the ethos, beliefs and success of the school. We are confident that our pupils are proud of their school, of their Welsh heritage and their bilingualism, and are able to positively contribute to the Waunarlwydd and Swansea communities, Wales and the world.

Providing your child's education is a huge responsibility and a privilege. If you are a parent of a child who is already at the school, we thank you for entrusting your children to us. We have an open door policy here at the school and your co-operation as parents and families acting in partnership with us is invaluable in ensuring that your children are given the very best opportunities.

We are a school which respects the rights of children and we recognise that everyone under the age of 18 have rights [Article 1 & 2 of the United Nations Convention on the Rights of the Child - (UNCRC)]

If you are considering sending your child to join us here at Ysgol Gymraeg Y Login Fach or if you would like to know more about us, please contact us and we will be more than happy to show you around the school so that you experience first-hand the friendly atmosphere and enthusiasm for teaching and learning.

Mrs Katrin Parkhouse
Headteacher



AMCANION YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y LOGIN FACH

Nod yr ysgol yw creu awyrgylch hapus, diogel a chefnogol

- lle y caiff pob plentyn ei barchu a'i gydnabod fel unigolyn.
- lle y gall pob plentyn deimlo'n ddiogel o fewn awyrgylch gofalgar.
- lle y caiff pob plentyn gyfle cyfartal, heb wahaniaethu ar sail rhyw, hil na chrefydd.
- lle y gall pob disgybl fwynhau awyrgylch Gymraeg a Chymreig a lle y codir ymwybyddiaeth o Gymreictod a chariad at ein gwlad a chelfyddyd ein gwlad.
- lle y datblygir plentyn yn academiaidd, yn emosiynol, yn ddiwylliannol, yn gorfforol, yn ysbrydol ac yn foesol.
- lle y datblygir hunanhyder, hunan-barch a pharch tuag at eraill,
- lle yr annogir sensitifrwydd, goddefgarwch at anghenion eraill o fewn a thu allan i'r ysgol.

AIMS OF YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y LOGIN FACH

The aim of the school is to create a happy, safe and supportive atmosphere

- where each child is respected and recognized as an individual.
- where every child can feel safe within a caring atmosphere.
- where all children have equal opportunities, without discrimination on the basis of sex, race or religion.
- where all pupils can enjoy a wholly Welsh atmosphere, where awareness of Welshness and love for our country and the art of our country are raised.
- where a child develops academically, emotionally, culturally, physically, spiritually and morally.
- where self-confidence, self-esteem and respect for others are developed,
- where sensitivity, tolerance to the needs of others within and outside the school is encouraged.



Prosbectws Ysgol Gymraeg Y Login Fach Prospectus

YR IAITH GYMRAEG

Iaith swyddogol yr ysgol yw'r Gymraeg a nod yr ysgol yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6. Cymraeg yw iaith y dosbarth a iaith y buarth.

Os yw plentyn di-Gymraeg yn ymuno â'r ysgol o Flwyddyn 1 fe wneir defnydd o'r ganolfan iaith a ddarperir gan y Sir.



THE WELSH LANGUAGE

Welsh is the official language of the school and the aim of the school is for all children to be fluent bilingual by the time they leave school at the end of Year 6. Welsh is the language of the classroom and the language of the yard.

If a non-Welsh speaking pupil joins the school from Year 1, use will be made of the language immersion unit provided by the Local Authority.

GOFAL BUGEILIOL

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am drefniadaeth bugeiliol yr ysgol. Mae'r athrawon dosbarth yn ymwneud â gofal bugeiliol y disgyblion o fewn eu dosbarthiadau, ynghyd a'u lles a'u cynnydd addysgiadol.

Y Pennaeth yw'r person a enwir sy'n gyfrifol am y plant dan ofal yn yr ysgol a sydd yn sicrhau mewn ymgynghoriad a'r athro dosbarth bod cymorth priodol mewn lle.

PASTORAL CARE

The Headteacher is responsible for the pastoral organisation of the school. The class teachers are concerned with the pastoral care of the pupils within their classes, as well as their well-being and educational progress.

The Headteacher is the named person responsible for the children in care at the school who ensures in consultation with the district teacher that appropriate support is in place.





TREFNIADAU DERBYN EICH PLENTYN

Bydd plant yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin ar ôl eu penblwydd yn dair oed.

Y Dosbarth Meithrin	➤ Cofrestrwch eich plentyn gyda'r ysgol cyn gynted a phosib. ➤ Rydym yn cadw rhestr o'r plant sydd wedi cofrestru gyda ni. ➤ Rhan amser. ○ Dosbarth Meithrin prynhawn yn y flwyddyn ysgol maent yn dair oed ○ Dosbarth Meithrin bore yn y flwyddyn maent yn 4 oed.
Y Dosbarth Derbyn	➤ Cofrestru ar-lein gyda'r Awdurdod Lleol a byddant yn ystyried pob cais. ➤ Cynigir lle i blant sydd yn byw o fewn y dalgylch. ➤ Llawn amser.
Trosglwyddo i'r Uwchradd	➤ Disgyblion Ysgol Gymraeg Y Login Fach yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwyr ar ddiwedd blwyddyn 6. ➤ Noson agored yn Ysgol Gyfun Gwyr ar ddechrau blwyddyn 6 ➤ Awdurdod Lleol yn cysylltu gyda phob teulu i gofrestru ar-lein yn ystod blwyddyn 6. ➤ Trefniadau pontio trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys wythnos bontio gyda thaith breswyl i Langrannog ag ymweliad am y dydd i'r ysgol ym mis Gorffennaf.



Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol
[Erthygl 28 o'r CCUHP]





ARRANGEMENTS FOR STARTING SCHOOL

Children can join the Nursery class after their third birthday.

Nursery	➤ Register your child with the school as soon as possible. ➤ We keep a list of children who will be joining the school when they are eligible. ➤ Part time. ○ Afternoon Nursery class in the school year in which they turn three years old. ○ Morning Nursery in the school year in which they turn four years old.
Reception	➤ Register online with the Local Authority and they will consider each application. ➤ A place will be offered if you live within our catchment area. ➤ Full time.
Transferring to Secondary School	➤ Ysgol Gymraeg Y Login Fach pupils generally transfer to Ysgol Gyfun Gwyr at the end of Year 6. ➤ Ysgol Gyfun Gwyr hold an Open Evening at the start of Year 6. ➤ Local Authority contact each family to register online when child is in Year 6. ➤ Transition arrangements throughout the year including a transition week which includes a residential trip to Llangrannog and a day at the school in July.



Every child has the right to an education and to attend school [Article 28 of the UNCRC]





GWARCHOD A DIOGELWCH

Mae sicrhau diogelwch ein dysgwyr yn hanfodol i ni yn Ysgol Gymraeg Y Login Fach. Mae pob aelod staff yn gyfrifol am les a gofal y disgyblion ac mae pob aelod staff yn hysbys i'r trefniadau diogelwch a diogelu ar draws yr ysgol.

Mae staff ar ddyletswydd o 8.10yb i ddisgyblion sy'n mynychu'r Clwb Brecwast ac o 8.40yb i bawb arall.

Trefniadau gadael y safle i ddysgwyr:

- Ni chaniateir i ddisgyblion adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd.
- Os fydd newid yn y modd y bydd disgybl yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni hysbysu'r ysgol o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Diogelwch yn yr Haul

- Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r Sir ynglŷn â diogelwch yn yr haul.
- Disgwylir i'r rhieni ddarparu cap/het addas i'r plant ar adegau poeth. Gofynnwn i rieni roi eli haul ar ei plentyn yn y bore.
- NI CHANIMATEIR I STAFF ei roi ar blentyn.

Mae ffôn mewnol ymhob ystafell er mwyn cysylltu mewn argyfwng ac mae camerâu CCTV o gwmpas y tu allan i'r ysgol.

Caiff plant eu goruchwylio yn ystod yr awr ginio ac amseroedd chwarae a chynhelir dril tân yn rheolaidd.

O bryd i'w gilydd bydd swyddogion meddygol a deintyddol yr Awdurdod Iechyd yn ymweld â'r ysgol. Caiff rieni'r wybodaeth angenrheidiol cyn yr ymweliadau hyn, a chysylltir â hwy os oes unrhyw broblemau yn eu sgil. Gwna'r ysgol ddefnydd hefyd o wasanaethau eraill yn yr Awdurdod, megis y Gwasanaeth Seicolegol a'r Gwasanaeth Lles.

IECHYD A DIOGELWCH

Fel ysgol, rydym yn dilyn canllawiau polisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Lleol. Mae gennym bwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cwrdd yn dymhorol ac yn archwilio'r trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff.

Mynediad i ymwelwyr yn ystod y diwrnod ysgol:

- Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol, a llofnodi mewn yn electronig.
- Rhoddir bathodyn adnabod gydag enw a llun i bob ymwelydd.
- Er mwyn gadael trwy'r brif fynedfa, rhaid gwasgu botwm diogelu sydd wedi ei osod ar uchder ar gyfer oedolion.

Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn amhriodol tuag at ddisgyblion neu aelodau staff, yna gofynnir iddynt adael safle yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol.



SUPERVISION AND SAFETY

Ensuring the safety of our learners is essential for us at Ysgol Gymraeg Y Login Fach. Each member of staff is responsible for the welfare and care of the pupils and all members of staff are aware of the safety and security arrangements across the school. Staff are on duty from 8.10am for pupils attending the Breakfast Club and from 8.40am for everyone else.

Arrangements for learners leaving the site:

- Pupils are not allowed to leave school early without permission.
- If there is a change in the way a pupil goes home, parents will be asked to inform the school in advance of the arrangements made.

Sun Safety

- The school follows the County's guidelines regarding safety in the sun. Parents are expected to provide the children with a suitable cap/hat in hot times.
- We ask parents to apply sunscreen on their child in the morning.
- STAFF MAY NOT put sun cream on a child.

There is an internal telephone in each room to connect in an emergency and there are CCTV cameras around outside the school. Children are supervised during lunchtime and playtimes and a fire drill is held regularly.

From time to time the school will be visited by Health Authority medical and dental officers. Parents will be given the necessary information prior to these visits, and will be contacted if there are any problems with them. The school also makes use of other services within the Authority, such as the Psychological Service and the Welfare Service.

HEALTH AND SAFETY

As a school, we follow the Local Authority's Health and Safety policies. We have a Health and Safety Committee which meets termly to assess and inspect the site, and processes followed by pupils and staff.

Entrance for visitors during the school day:

- Every visitor must gain entrance via the main entrance, and sign into the building electronically.
- Each visitor is provided with a visitor's badge bearing their name and photograph.
- When leaving the school, the main front door can only be opened by pressing a release button which is set at adult height.

If visitors behave inappropriately towards pupils or staff members, they will be asked to leave the school immediately and the Police called if appropriate.



AMDDIFFYN PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant. Os ceir pryderon ynglŷn â cham-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, i hysbysu Arweinydd Dynodedig Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall yr Arweinydd Dynodedig ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i Arweinydd Dynodedig yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau yr Awdurdod Lleol.

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r disgybl. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Y Pennaeth, Mrs Katrin Parkhouse, yw Arweinydd Dynodedig Diogelu yr ysgol, neu yn ei absenoldeb, Mrs Rhian Davies, y Dirprwy Bennaeth. Y Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddiogelu plant yw Mrs Susan Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr.

CHILD PROTECTION



Every member of staff at school has a responsibility to ensure the protection and safety of children. If staff have any cause to suspect physical, emotional or sexual abuse then they have an obligation under Wales Safeguarding Procedures to inform the school's Designated Officer for Child Protection.

The Designated Officer may consult with professional colleagues and relevant agencies such as the Health Authority or Social Services. Following these consultations, it is possible that the Designated Officer may refer the child's case officially to Social Services in line with the guidelines of the Local Authority.

The decision as to whether further action needs to be taken lies with Social Services. Depending on the nature of the allegations it may not be appropriate to discuss matters with the parent before referring the pupil. Social Services and the Police then take responsibility for investigating any allegations.

The Designated Officer for Child Protection for the school is Mrs Katrin Parkhouse, the Headteacher, or in her absence Mrs Rhian Davies, the Deputy Head. The Governor responsible for Child Protection is Mrs Susan Evans, the Chair of Governors.



CYFLE CYFARTAL

Credwn yn gryf yn ein hysgol ni fod pob plentyn, beth bynnag ei hil, ei genedl neu allu, yn haeddu cyfle cyfartal. Trwy gydol pob gweithgaredd yn yr ysgol a'r cwricwlwm, bydd gan y plentyn gyfle i gymryd rhan ac wrth wneud hynny, i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau personol a'u boddhad.

Fe fydd ein cymuned ysgol yn hyrwyddo amgylchedd fydd yn adlewyrchu'r parch a ddangosir tuag at bob unigolyn sy'n myned i'n hysgol. Trwy ein cwricwlwm, ceisiwn ddatblygu goddefgarwch a pharch tuag at bobl a diwylliannau eraill gan sicrhau cymuned a seilir ar ymddiriedaeth a chydweithrediad. Credwn fod ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal yn arwain at arfer addysgiadol da ac yn sail ar gyfer datblygu medrau a thalentau pob unigolyn.



EQUAL OPPORTUNITIES

We strongly believe as a school that every child, of all races, ethnicities or ability deserve an equal opportunity. Each child will have the chance to participate fully in every school activity across the curriculum, and to do so to develop their knowledge, personal skills and fulfilment.

Our school community will foster an environment which shows respect towards every individual who attends our school. As part of our curriculum we aim to develop tolerance and respect for people of other cultures, ensuring a culture based on trust and cooperation. We believe that awareness of equal opportunities lead to good educational practice and is a solid foundation for the development of each individual's abilities and talents.



EIN CWRICWLWM

Yn Ysgol Gymraeg Y Login Fach ein nod yw rhoi cwricwlwm sy'n caniatáu ein disgyblion i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, cysyniadau ac agweddau, gyda phwyslais cryf ar brofiadau uniongyrchol. Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym yn ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben a datblygu fel dysgwyr hyderus ac uchelgeisiol.


Mae'r **4 diben** wrth galon y cwricwlwm ac yn cefnogi ein disgyblion i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r **6 Maes Dysgu a Phrofiad**:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu **sgiliau trawsgwricwlaidd** gorfodol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hystemyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.





OUR CURRICULUM

At Ysgol Gymraeg Y Login Fach we aim to provide a curriculum that allows our pupils to develop knowledge, skills, concepts and attitudes, with a strong emphasis on first-hand experiences. Our curriculum will elevate the aspirations of every learner. As a school we consider how each learner will be supported to realise the four purposes and develop as confident and ambitious learners.

The 4 purposes are at the heart of the curriculum and support our pupils to be:

- Ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives
- Enterprising, creative contributors who are willing to play their full part in their life and work
- Principled, informed citizens in Wales and the world
- Healthy, confident individuals who are ready to live life to the fullest as valued members of society.

Our curriculum provides learning experiences through the **6 Areas of Learning and Experience**:

- Language Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Maths and Numeracy
- Health and Wellbeing
- The Humanities

Our curriculum will develop compulsory **cross-curricular skills** of literacy, numeracy and digital competence within a curriculum that enables learners to develop competence and ability in these skills and extend and apply them across all Areas of Learning and Experience.





ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Nod yr ysgol yw darparu cyfleoedd i bob disgybl ddatblygu a chyflawni i'w llawn botensial trwy gwricwlwm yr ysgol a'r strategaethau dysgu ac addysgu.

Mae asesu ac arsylwi parhaus yn galluogi'r athrawon i gynllunio gweithgareddau a strategaethau sydd yn addas ar gyfer pob plentyn.

Ein bwriad pob tro yw adnabod ein plant yn dda er mwyn gallu cynllunio ar gyfer anghenion pob plentyn. Weithiau, bydd angen cymorth ychwanegol neu wahanol ar rai plant. Gall hyn fod ar nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys defnyddio strategaethau penodol, darparu cymorth ychwanegol neu geisio am gyngor gan asiantaethau arbenigol.

Bydd staff yr ysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda phlant a rhieni wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cynnwys rhieni a phlant yn penderfyniadau a wneir. Proses cytûn yw hyn gyda staff y dosbarth yn gweithio'n agos iawn â chydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sef Mrs Denise Whitty, wrth adnabod anghenion, monitro a chynllunio darpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae gan bob plentyn yr hawl i gymorth a gofal arbennig [Erthygl 23 o'r CCUHP]

Every child has the right to special support and care [Article 23 of the UNCRC]



ADDITIONAL LEARNING NEEDS (ALN)

The school's aim is to provide each pupil with the opportunity to develop and reach their full potential through the school's curriculum and the use of teaching strategies.

Regular assessment and observation enable the teachers to design activities and strategies which are suitable for each child. Our aim is to know each and every child well so that we can tailor to the needs of each and every child. Occasionally additional or different help will be needed for some children. This can take various forms such as the use of specific strategies, the provision of additional help or seeking advice from external specialist agencies.

The school's staff will work closely with both children and parents in designing the educational provision for pupils with additional learning needs, and will include parents in the decisions made. This is a joint process with the classroom staff working closely with the school's Additional Learning Needs Co-ordinator, Mrs Denise Whitty in identifying, monitoring and designing suitable provision for each pupil.



Pan fydd disgybl ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol yn dechrau yn yr ysgol bydd cyfarfodydd ac ymweliadau ychwanegol er mwyn i'r disgybl ymgartrefu'n llwyr, o'r cychwyn cyntaf. Byddwn yn trin pob plentyn yn gyfartal ac yn defnyddio'r un polisi derbyn ar gyfer pawb.

Mae adeilad yr ysgol yn addas ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol gan y gellid teithio i bob rhan heb ddefnyddio grisiau. Mae gennym gyfleusterau tŷ bach addas ac mae Cynllun Hygyrchedd gan yr ysgol.

Pan fydd disgybl yn teimlo'n sâl, fe wneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni er mwyn anfon y disgybl adref. Pan fydd disgybl yn cael damwain, gweinyddir cymorth cyntaf gan Swyddogion Cymorth Cyntaf yr ysgol. Os bydd anaf i'r pen byddwn yn cysylltu gyda'r rhieni ar bob adeg. Os oes angen sylw meddygol pellach fe wneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni er mwyn anfon y disgybl adref trwy ddefnyddio'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth rieni ar y ffurflen gyswllt.

Gweinyddu Moddion / Administer Medicine

Cyflwyneddi i rhes / Gwerscheldwyr sy'n caniatáu / I'ysgol / Teallid gweinyddu meddygon (meddygon)

Parental / carer agreement for school/setting to administer medicine

N bod y pwyso/teallid yn rhai meddygon (on plant) ONI BAI achod heb weld cyhoir ac ammodd iad yn unol a phroffesiyn y meddygon (meddygon).

The school/setting will not give your child medicine **UNLESS** you complete and sign this form in accordance with the school policy that staff can administer medicine.

Enw'r rhagwr:
Name of:

Enw'r plant:
Name of child

Dyddiad Geni:
Date of Birth:

Dosbarth:
Class:

Cyflwr Meddyg/
Medical Condition:

Dylid gyflwyno ffurflen 'Gweinyddu Moddion' sydd ar gael o'r swyddfa neu ar wefan yr ysgol.

Pan fydd angen moddion cynorthwyol (e.e. pwmp asthma) gall y disgybl fynd i'r swyddfa, lle y cedwir rhain. Bydd aelod staff ar gael i'w ddarparu. Os oes ansicrwydd ynglŷn â moddion yn yr ysgol, gellir trafod gyda'r Pennaeth.



DISABILITIES

When a child with disabilities and / or additional learning needs starts at the school, additional meetings and visits will be arranged to help the pupil settle in from the early days. We will treat each child equally and will use the same admissions policy for all.

Pupils and staff will treat everyone equally in line with our Equality Policy.

The school building is suitable for pupils with physical disabilities as all areas are accessible without using stairs. We have suitable toilet facilities and an Accessibility Plan.

MEDICATION AND ILLNESS

When a pupil feels unwell, we will make every attempt to contact parents to send the pupil home. When a pupil has an accident at school, first aid is administered by the school's First Aid Officers. In the event of a head injury, we will always contact parents. If professional medical assistance is needed, we will make every effort to contact parents to send the pupil home, using contact information provided by parents.

If parents change their phone number, address or email address during the school year, these details should be passed on to the school office so that the contact details on the system can be amended.

If a parent asks a member of school staff to administer medicine to a child, the school will follow the guidelines of our "Administration of Medicines" policy. An "Administer Medicines" form should be completed – this is available either from the school office or on the school's website.

When assistance medication (e.g. an asthma pump) is needed, the pupil can go to the office where these are kept. A member of staff will be available to assist. If you are unsure about any aspects of medication at school, please speak to the Headteacher.

Gweinyddu Moddion / Administer Medicine

Cyfrandeb / I dderbyn / I gwerchiwchwr sy'n caniatáu i'r ysgol/meddyllwysddu meddygymeddy

Parental / carer agreement for school/setting to administer medicine

Ni bydd yr ysgol/meddyllwysddu yn rhoi meddygymeddy i'r plant ONI BAI eich bod wedi nodi osid i'w rhoi i'r ysgol/meddyllwysddu o weinyddu meddygymeddy.

The school/setting will not give your child medicine UNLESS you complete and sign this form in accordance with the school policy that staff can administer medicine.

Enw'r rhai: _____ **Enw'r plant:** _____
Name of: _____ Name of child: _____

Dyddiad Geni: _____ **Dosbarth:** _____
Date of Birth: _____ Class: _____

Cyflwr Meddyg: _____
Medical Condition: _____



YMDDYGIAD, DISGYBLAETH A LLES

Cyfrifoldeb pob aelod o'r ysgol yw ymddwyn gyda chwarteisi a pharch tuag at eraill ar bob adeg. Disgwylir i bawb ddangos hunan ddisgyblaeth ac ymddygiad positif sy'n adlewyrchu ethos ein hysgol. Defnyddir **canmoliaeth a chlod** fel elfennau allweddol wrth feithrin hunanddisgyblaeth a datblygu ymagweddau positif. Seilir rheolau'r ysgol ar yr egwyddorion o hunan- barch a pharch at eraill.

